

## PWYLLGOR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

20 Ionawr 2016

Yn bresennol: Y Cynghorydd Mrs L Jenkins, y Cynghorydd DWM Rees a Mr AE Sangster; Mr S Bradley (PLANED), Mr P Howe (Cyngor Sir Penfro) a Mr P Stone (Cyfoeth Naturiol Cymru)

[Cyrhaeddodd Ms L Livock (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro) yn ystod y cyflwyniad cyntaf]

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 13.55pm)

- 1. Penodi Cadeirydd**  
**PENDERFYNWYD YN UNFYDOL** i benodi Mr AE Sangster yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn.
- 2. Penodi Dirprwy Gadeirydd**  
Ni ddaeth unrhyw enwebiadau i law ar gyfer swydd y Dirprwy Gadeirydd, ac felly byddai'r eitem hon yn cael ei thrafod eto yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.
- 3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**  
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd RM Lewis, Mrs M Thomas a'r Cynghorydd M Williams; Mr R Smith/Ms S Burnett (Menter Busnes Sir Benfro a Ms L Williams (Twristiaeth Sir Benfro). Roedd Ms L Livock wedi dweud wrth y swyddogion fod ganddi apwyntiad arall, ac yn byddai'n hwyr.
- 4. Datgelu buddiant**  
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.
- 5. Cofnodion**  
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.  
**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2015.
- 6. Y Diweddaraf am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**  
Atgoffwyd y Pwyllgor fod cais SDF 352, a wnaed gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn Gwylt 'Bee Wild West Wales' ym mis Medi 2015, wedi bod yn destun ymgynghori electronig, ac wedi'i gymeradwyo i gael cyllid dros bedair blwyddyn ariannol.

Aeth Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy rhagddi i amlinellu'r chwe chais yr oedd angen i'r Pwyllgor eu hystyried y diwrnod hwnnw. Dywedodd pe byddai'r

Pwyllgor yn cymeradwyo cais SDF 0356 'On the Trail of Wild Honey', y byddai unrhyw grant yn cael ei gynnig o dan y Rheoliad de minimis amaethyddol er mwyn cydymffurfio â rheolau cymorth gwladol. Y terfyn amaethyddol oedd €15,000 dros dair blynedd ariannol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar bob prosiect presennol a hynt y prosiectau hynny. O'r prosiectau a oedd ar y gweill, tynnodd sylw at ddau yn benodol a oedd wedi newid neu wedi'u gohirio ers i'r cyllid gael ei roi iddynt. Y ddau brosiect hwnnw oedd:

- (i) SDF 0345 Biomass Firewood Kiln: fel y soniwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor, bu anawsterau gyd lleoliad yr odyr, ac roedd Gweinyddwr y Gronfa wedi cytuno i ymestyn amserlen y prosiect. Bwriadwyd y byddai'r odyr yn cael ei gweithio gan fwyler biomás, ond wrth ymchwilio ymhellach canfuwyd system gompost o adennill gwres a oedd hyd yn oed yn fwy cynaliadwy. Roedd hwn bellach yn rhan o gais newydd (SDF 0357) a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor y diwrnod hwnnw.
- (ii) SDF 0349 Dr Beynon's Bug Farm – Cam 3: amcan y cam hwn oedd adeiladu ar y camau blaenorol i agor y Fferm Chwilod i'r cyhoedd, ac yn ogystal â helfeydd chwilod ar y safle, teithiau tywys, gweithdai a digwyddiadau trafod, bwriedir hefyd cynnal taith gerdded Sir Benfro drwy'r tŷ chwilod, profiad o chwilod trofannol, cocŵn a swyddfa docynnau/siop ac oriel. Gweithiwyd yn galed ar y prosiect, ond oherwydd oedi o ran y gwaith adeiladu a chludo deunyddiau i'r Fferm, dim ond yn rhannol y llwyddwyd i agor y safle erbyn diwedd Hydref 2015. Bellach roedd lansiad llawn ar y gweill ar gyfer gwanwyn 2016, pan fyddai holl waith Cam 3 wedi'i orffen. Roedd cais terfynol am Gam 3 wedi'i gyflwyno, ond daliwyd 10% o'r taliad SDF llawn yn ôl am nad oedd y prosiect wedi'i orffen yn llwyr.

Soniwyd bod adroddiad cynnydd SDF 2014-15 wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol ym mis Tachwedd 2015. Roedd yr Aelodau yn falch o glywed am yr hyn a gyflawnwyd a chanmolwyd y gronfa, yn enwedig ei gallu i gefnogi prosiectau arloesol, a thrwy hynny gymryd risg. Yn sgil y cyfarfod hwnnw, roedd y swyddogion yn ystyried a fyddai'n werth cynnal prosiect gwerthuso i edrych ar lwyddiant neu barhad prosiectau a ariannwyd yn y gorffennol.

Aeth Gweinyddwr y Gronfa rhagddi i sôn am y sefyllfa ariannol ar gyfer 2015/16. Cyfeiriodd at ei hadroddiad, a oedd yn nodi crynodeb o sefyllfa ariannol y Gronfa. Dangosai'r adroddiad mai'r swm cyffredinol a oedd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn i gefnogi prosiectau oedd £135,186. Gan fod prosiect SDF 0329 wedi dod i ben yn gynnar, roedd arian a neilltuwyd eisoes ar gael eto, ac felly roedd £18,966 ar gael i gefnogi prosiectau newydd. Nodwyd fod y ceisiadau dan ystyriaeth yn gofyn am £23,377 yn ystod y flwyddyn. Felly, byddai diffyg o £4,411 pe byddai'r holl geisiadau am gyllid yn deilwng. Fodd bynnag, gwelwyd yn y gorffennol bod nifer o brosiectau yn methu â hawlio'r arian a neilltuwyd iddynt erbyn diwedd y flwyddyn

ariannol, a gellid ymrwymo mwy o gyllid nag oedd ar gael, ar y ddealltwriaeth y byddai peth llithriad.

O ran cynllun y Grant Bach Gwyrdd (GBG), soniwyd bod tri chais wedi'i gymeradwyo hyd yn hyn, ac roedd manylion y rheini yn yr adroddiad. Daeth 11 cais newydd GBG ym mis Rhagfyr 2015 yn gofyn am £13,560.75 o gyllid GBG. Fodd bynnag, dim ond £2,060.34 oedd ar gael yng nghronfa GBG i'w ddsbarthu y flwyddyn ariannol hon. Roedd y ceisiadau yn cael eu hasesu ar hyn o bryd a byddai'r swyddogion yn cwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor ar ôl y cyfarfod, er mwyn gwneud penderfyniad terfynol ar y ceisiadau hyn.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) na fyddai'r 10% olaf o'r cyllid ar gyfer SDF 0349 Dr Beynon's Bug Farm: Cam 3 yn cael ei dalu hyd nes byddai'r holl waith ar y Cocŵn a'r Twannel Tymherus wedi'i gwblhau, a thwy hynny'n cwblhau Cam 3 y prosiect SDF fel y'i cymeradwywyd,
- (b) nodi gweddill adroddiad Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

#### **7. Ceisiadau am gyllid o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Trafododd y Pwyllgor chwe chais newydd am gyllid o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (y Gronfa). Trafodwyd y ceisiadau'n fanwl ar sail meini prawf y Gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan bob un o'r ymgeiswyr. Atgoffwyd yr Aelodau gan Weinyddwr y Gronfa bod nifer o'r ceisiadau ar y agenda y diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif.

<b>Cyfeirnod</b>	<b>Prosiect</b>	<b>Cyflwyniad gan</b>	<b>Sefydliad</b>
SDF 0355	Strumble Tidal Flow	Jane O'Brien Tom Latter Ben Ferguson-Walker	Transition Bro Gwaun
SDF 0358	Pembrokeshire Park Play, Our Way	Alexandra Fudge Hayley Timms	Clybiau Plant Cymru
SDF 0354	Pembrokeshire Sustainable Shellfish Pilot Initiative	Sue Burton  Stephen DeWaine	Grŵp Awdurdodau Morol Sir Benfro Cymdeithas Pysgotwyr Pysgod Cregyn Gorllewin Cymru
SDF 0356	On the Trail of Wild Honey	Matt Sutton	Jordanston Mountain
SDF 0357	Compost Heat Recovery	Liam Morris	LM Tree Solutions
SDF 0359	Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro	Graham Peake Simon Thomas Alex Moss	Partneriaeth Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd mai Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol oedd i wneud y penderfyniadau, yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor, ond y byddai Aelodau'r Awdurdod yn cymryd barn Aelodau'r Pwyllgor i ystyriaeth.

Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

- (a) rhoi'r swm llawn o gyllid i'r ceisiadau canlynol, yn ddarostyngedig i amodau arferol y grant ac unrhyw amodau eraill y cytunwyd yn y cyfarfod (ac a nodir isod):
  - (i) SDF 0354 Pembrokeshire Sustainable Shellfish Pilot Initiative
  - (ii) SDF 0356 On the Trail of Wild Honey: Mae'r Pwyllgor yn awyddus i'r ymgeisydd feithrin perthynas agosach â Chymdeithas Gwenynwyr Sir Benfro er mwyn rhoi hwb i'r prosiect i'r cam nesaf.
  - (iii) SDF 0357 Compost Heat Recovery
  - (iv) SDF 0358 Pembrokeshire Park Play, Our Way
  - (v) SDF 0359 Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro: Bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb yn yr adroddiadau monitro rheolaidd a gyflwynir, a gofynnodd i'r ymgeisydd feithrin mwy o gysylltiad â'r Awdurdod Lleol i'w helpu i ymwreiddio'r prosiect. Awgrymwyd hefyd y gallai gwaith mentora gan yr athrawon hynny sy'n ymroddedig i'r prosiect gefnogi'r rhai hynny nad oedd yn ymddiddori cymaint ynddo.
- (b) gwrthod y cais canlynol:
  - (i) SDF 0355 Strumble Tidal Flow – er bod y Pwyllgor yn cefnogi'r syniad, teimlai bod angen datblygu'r cais ymhellach, ac roedd yn fodlon ailystyried cais arall yn y dyfodol. Nodwyd hefyd y byddai PLANED yn gweinyddu cyllid LEADER ar lefel leol, ac mai un o'r themâu oedd ynni adnewyddadwy. Yr oedd yn bosibl y gallai'r grŵp gael rhywfaint o gyllid o dan y ffrwd ariannu honno.

## **8. Adolygiad o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy gan Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol**

Atgoffwyd yr Aelodau fod y pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru wedi comisiynu adolygiad annibynnol yn 2014 o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy rhwng 2009 a 2013. Diben yr adolygiad oedd cael tystiolaeth gadarn am lwyddiannau'r Gronfa, asesu model y Gronfa a helpu i lywio syniadau at y dyfodol. Roedd y crynodeb gweithredol o'r adroddiad yn atodedig er gwybodaeth y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** cyflwyno unrhyw sylwadau ar yr adroddiad i Weinyddwr y Gronfa.